

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/2616/22



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

28 Medi 2022

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr ar 8 Awst yn gofyn am esboniad am y gostyngiad yn nifer y disgyblion mewn lleoliadau prif ffrwd sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o gymharu â'r llynedd, a pham na fydd rhai disgyblion a gofrestrwyd yn flaenorol fel disgyblion ag AAA yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Fel y soniais yn ystod ein sesiwn ar 14 Gorffennaf, roeddwn wedi disgwyl gweld rhai amrywiadau ystadegol gan fod y diwygiadau yr ydym yn eu cyflwyno mor sylweddol. Roedd patrwm y niferoedd gostyngol hefyd yn cael ei adlewyrchu yn Lloegr pan gyflwynwyd y diwygiadau anghenion addysgol arbennig ac anabledd (SEND) yno.

Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi dangos newidiadau sylweddol yn nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion ag AAA neu ADY eleni, felly roedd angen ymchwilio ymhellach.

Gofynnais i fy swyddogion ymchwilio i'r data AAA/ADY yn y datganiad CYBLD, gan gyfarfod ag awdurdodau lleol i ddeall y rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr AAA/ADY. Yn dilyn y cyfarfodydd ag awdurdodau lleol, nodwyd sawl rheswm yn esbonio'r gostyngiad, ond daeth rhai ffactorau cyffredin i'r amlwg.

I ddechrau, gyda'r Ddeddf ADY ar fin cael ei gweithredu, roedd cyfle i'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a oedd newydd eu penodi adolygu eu cofrestrau AAA/ADY i sicrhau eu bod yn addas at y diben a bod pob disgybl wedi'i gofrestru yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o gael naill ai AAA neu ADY.

Yn ail, rhoddodd rhai awdurdodau lleol wybod bod angen diwygio'r cofrestrau oherwydd bod anghysondebau wedi bod yn y modd y cafodd AAA ei adrodd a'i gofrestru yn y gorffennol, a'i bod yn debygol bod gormod o achosion wedi'u nodi yn y rhifau cyffredinol neu'r disgyblion ar y gofrestr AAA/ADY.

Er enghraifft, ni ddylai rhai disgyblion a oedd yn cael cymorth dal i fyny fod wedi'u nodi yn ddisgyblion yr oedd angen Darpariaeth Addysgol Arbennig (DAA) arnynt, tra bod y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) tymor byr, a gafodd ymyriadau am gyfnod penodol, yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gallu aros ar y gofrestr am fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd ar ôl i'r ymyrraeth ddod i ben. Rydym wedi cael gwybod bod dileu'r grwpiau hyn o ddisgyblion, a hynny yn briodol, wedi ychwanegu at y gostyngiad yn y data CYBLD eleni.

Yn drydydd, mae egwyddorion addysg gynhwysol, sy'n gosod anghenion yr unigolyn wrth wraidd ei addysg, yn sail i'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bellach mae gan athrawon fwy o hyblygrwydd ac wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm maen nhw wedi gwella eu sgiliau i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol. Er bod y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau, mae agweddau ar ddull addysgu mwy cynhwysol wedi bod yn datblygu yng Nghymru ers peth amser.

Er enghraifft, pan fo cefnogaeth ychwanegol ar gyfer darllen wedi ei hystyried yn ddarpariaeth addysgol arbennig (DAA) gynt mewn rhai ysgolion, mae bellach yn fwy tebygol o gael ei hystyried yn addysgu gwahaniaethol a'i thrin felly; darpariaeth gyfannol o'r radd flaenaf sydd ar gael i bawb, nad yw'n ei gwneud yn ofynnol cael Cynllun Gweithredu gan yr Ysgol na CDU.

Ac yn bedwerydd, tynnwyd y categori anawsterau dysgu cyffredinol o'r data a gasglwyd eleni. Y bwriad gwreiddiol oedd ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion sy'n aros am asesiad cyn y gellid defnyddio categori AAA mwy penodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, roedd dros 30,000 o ddisgyblion wedi eu nodi yn ddisgyblion ag anawsterau dysgu cyffredinol yn nata CYBLD y llynedd, sydd yn llawer uwch na'r ffigur disgwylidig ar gyfer disgyblion sy'n aros am asesiad. Yn sgil dileu'r categori anawsterau dysgu cyffredinol cafodd llawer o ddisgyblion eu tynnu oddi ar y gofrestr AAA yn gyfan gwbl gan nad oedd modd eu nodi mewn unrhyw gategori arall. Mae hyn yn awgrymu'n gryf nad oedd llawer o'r disgyblion a oedd wedi'u categorio fel rhai sydd ag anawsterau dysgu cyffredinol mewn gwirionedd yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o gael AAA neu ADY.

Yn ystod y cyfarfodydd ag awdurdodau lleol, daeth yn amlwg bod rhai ohonynt eisoes wedi gofyn am sicrwydd gan eu hysgolion ac wedi ymchwilio i'r data AAA/ADY i sicrhau ansawdd trefniadau nodi ac adrodd ADY.

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r system ADY, gyda chefnogaeth Cydlynwyr ADY a phartneriaid allweddol eraill, mae'n ymddangos bod ysgolion wedi cryfhau arferion gweinyddol a chywiros rhai gwallau yn y gorffennol. Nid yw'n gymaint bod y system ADY wedi 'codi'r bar', ond yn hytrach bod y bar wedi ei ostwng mewn rhai lleoliadau o dan y system flaenorol. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a chadw golwg ar hyn.

Mae'n parhau i fod yn rhy gynnar i allu dweud pa mor llwyddiannus fu'r gweithredu, neu a yw'r cofrestrau'n adlewyrchu darlun mwy cywir nag a oeddent yn y blynyddoedd blaenorol gan fod data CYBLD eleni wedi'u casglu dim ond chwe wythnos ar i'r carfannau cyntaf ddechrau symud o'r system AAA i'r system ADY. Fodd bynnag, mae'n rhoi syniad o'r ffordd y mae ysgolion wedi bod yn paratoi ar gyfer y system ADY.

Mae rhaglen monitro ac ymchwil Diwygio ADY yn cael ei chaffael ar hyn o bryd, ochr yn ochr â rhaglen ymgysylltu â rhieni a phobl ifanc i ddeall eu profiadau o'r system newydd. Bydd y grŵp llywio cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar yn sicrhau deialog barhaus gyda'r sector er mwyn cefnogi gweithrediad, nodi a datrys materion. Bydd y monitro a'r ymchwil yn darparu gwybodaeth hanfodol ynghylch gweithredu, ac i ddeall yr effaith ar y diwygiadau ADY.

Hefyd, mae fy swyddogion yn gweithio gydag Estyn i geisio rhagor o sicrwydd bod y gwaith o gyflwyno'r system ADY mewn ysgolion yn effeithiol ac yn gwella canlyniadau addysgol.

Rwy'n gobeithio cynnig mwy o newyddion i'r Pwyllgor am y cynlluniau hyn yn ystod tymor yr hydref.

O ran eich cais am ragor o ddata, byddwn yn falch o ddarparu ffigurau ddwywaith y flwyddyn ichi ar nifer y disgyblion ag AAA neu ADY. Er bod CYBLD yn gasgliad blynyddol, mae ysgolion ar hyn o bryd yn parhau i ddarparu cofnodion presenoldeb wythnosol inni sy'n cynnwys statws AAA/ADY pob disgybl. Bydd y rhain yn cael eu hanfon atoch bob chwe mis.

Dylid nodi bod y newidiadau i gasgliad data ADY CYBLD yn rhan o ddarn o waith mwy hirdymor i sicrhau ei fod yn ffynhonnell ddata gadarn ar ddysgwyr ag ADY. Bydd gweithgor mewnol yn ymgynnull yn yr hydref i gynllunio ac i gynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gofynion data ar gyfer casgliad data mis Ionawr 2025. Tan hynny ni fydd unrhyw newidiadau ychwanegol yn cael eu gwneud er mwyn olrhain a monitro set ddata gyson ar gyfer gweddill y cyfnod gweithredu. Mae fy swyddogion hefyd yn archwilio ystod o ffyrdd ar gyfer olrhain disgyblion sydd wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr AAA i sicrhau nad effeithir yn negyddol ar eu cynnydd addysgol.


I gloi, mae'n bwysig nodi bod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY pan ddaw'r mater i'w sylw. Mae gan unrhyw ddisgybl sydd wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr AAA yn ddiweddar yr hawl i siarad â'i ysgol i ofyn am CDU os nad oes modd diwallu ei anghenion heb ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY).

Nid ydym wedi symud i ffwrdd o ddatganiad fy rhagflaenydd a oedd yn nodi bod cael ADY yr un fath â chael AAA. Os oes gan blentyn neu berson ifanc AAA yna mae'n debygol y bydd ganddo ADY hefyd. Dylai pob disgybl a oedd wedi'u gosod yn briodol ar y gofrestr AAA gael CDU o dan y system ADY os oes angen DDdY arnynt o hyd (ac yn achos person ifanc, eu bod yn cydsynio i gael CDU).

Wrth inni symud i'r ail flwyddyn o weithredu, mae'n rhy gynnar o hyd i asesu'r cynnydd o ran gweithredu, ond mae adborth gan y sector, teuluoedd a rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar hyn o bryd.

Edrychaf ymlaen at eich hysbysu ynghylch ymchwil, tystiolaeth a gwybodaeth am weithredu a gwireddu polisi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language